Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Arweinydd Gweithgaredd a Thiwtor - Prosiect AnTir

## Contract Cyfnod Penodol 18.75 a/w hyd at 31 Rhagfyr 2025

## £25k pro rata

## Lleoliad: Pembs

Mae prosiect AnTir newydd Tir Coed yn mynd i'r afael â newid hinsawdd, anghydraddoldebau iechyd a chyfoeth a cholli bioamrywiaeth trwy ymgysylltu â phobl o gymunedau gwledig Canolbarth a De-orllewin Cymru yn y byd natur o'u cwmpas. Mae AnTir yn ehangu darpariaeth coetir Tir Coed i gynnwys tyfu bwyd sy'n gyfeillgar i natur, arferion tir adfywiol a thechnegau megis adfer perthi, dolydd neu berllan, a hyd yn oed mwy o grefftau treftadaeth.

Rydym yn gweithio i fodel dilyniant sefydledig, sy'n galluogi pobl i ddatblygu sgiliau ymarferol sy'n ymwneud â'r tir a'u cefnogi i symud ymlaen i ymgysylltu economaidd neu gymuned bellach, tra'n gwella safleoedd ar gyfer bioamrywiaeth a mynediad i bawb.

Bydd yr Arweinydd Gweithgaredd a Thiwtor yn arwain ar y ddarpariaeth o gyrsiau hyfforddi a sesiynau gweithgaredd mewn safleoedd ar draws y sir, gan gynnwys darparu cyrsiau achredig ac ardystiedig.

Ar gyfer pob un o'r swyddi, byddai sgiliau iaith Gymraeg yn fantais, yn ogystal â phrofiad blaenorol o ddarparu gweithgareddau dysgu awyr agored a gwybodaeth o'r ardal leol. Oherwydd natur wledig yr ardal, bydd angen ddefnydd o gerbyd a ellir cael ei ddefnyddio at bwrpas gwaith. Bydd angen gwiriad DBS trylwyr ar unrhyw un a gynigir y swydd iddynt.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.tircoed.org.uk
Rhestr lawn o weithgareddau: http://tircoed.org.uk/what-we-do
Fideo Gweithio gyda Thir Coed: https://www.youtube.com/watch?v=8QQ26FUtUwc

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, nodwch y broses a ganlyn os gwelwch yn dda:

**Ymgeisio**: Anfonwch lythyr eglurhaol (1 dudalen A4) yn manylu sut yr ydych yn cyflawni'r meini prawf gofynnol a manteisiol, ynghyd â CV byr, i projectmanager@tircoed.org.uk.

**Dyddiad cau:** Dydd Sul 25ain Mai am 5yh

**Dyddiadau cyfweld**: 28ain Mai 2025

## RÔL A CHYFRIFOLDEBAU

Adrodd i Gydlynwyr y Sir a staff rheoli Tir Coed;

- Cynllunio gwersi ar gyfer, a chyflwyno ac asesu, sesiynau gweithgaredd, gweithgareddau dysgu a chyrsiau achrededig ar gyfer prosiect AnTir, yn unol ag amserlen y prosiect ac yn cynnwys:
  - Cyrsiau hyfforddi achrededig 12 wythnos
  - Cyrsiau hyfforddi achrededig 6 wythnos
  - Cyrsiau Rhagarweiniol (cyrsiau 2 diwrnod)
  - Cyrsiau Dwys (cyrsiau 5 diwrnod mewn sgiliau penodol cysylltiedig â gwaith)
  - Diwrnodau Gweithgareddau Coetiroedd, Natur a Thyfu
  - Sesiynau gwirfoddoli
- Paratoi a chynnal teclynnau
- Paratoi a chynnal deunyddiau dysgu a chaledwedd (e.e. iPads, llyfrau log, llyfrau gwaith)
- Sicrhau bod y dyfeisiau a ddefnyddir gennych chi a'r cyfranogwyr yn ddiogel ac wedi'u gwefru
- Gwneud gwaith paratoi ar gyfer datblygu safleoedd a rheoli coetir ar safleoedd Tir Coed
- Sicrhau bod safleoedd a gweithgareddau yn cadw at bolisïau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg
- I archebu a chasglu deunydd sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau dysgu a lles Tir Coed
- I gadw lluniaeth y safle'n llawn
- I gefnogi'r Cydlynydd Sirol i chwilio am safleoedd coetir newydd ac i greu cynlluniau rheoli ar eu cyfer.
- Mynychu sioeau/digwyddiadau (tua 2 y flwyddyn) a rhoi arddangosiadau coed gwyrdd/coetir a gweithgareddau natur.

## CYMWYSTERAU A PHROFIAD

Mae'r cymwyseddau canlynol yn

### Hanfodol:

- Y gallu i drefnu a chynllunio gwersi/gweithgareddau a rheoli amser yn effeithiol
- Y gallu i arwain grwpiau, ysbrydoli ymddiriedaeth a bod yn ymwybodol o les unigolion
- Profiad proffesiynol o reoli coetiroedd yn gynaliadwy a/neu reoli ystadau
- Dealltwriaeth o fanteision cymdeithasol ac iechyd bod ym myd natur a choetiroedd
- Profiad o gyflwyno ac asesu cyrsiau achrededig
- Profiad o gyflwyno gweithgareddau i amryw o grwpiau
- Profiad o gadwraeth a gweithgareddau awyr agored
- Dealltwriaeth o ymarferion Iechyd a Diogelwch

**Dymunol:**

- Y gallu i sgwrsio'n rhugl yn Gymraeg
- Profiad o gydlynu gwirfoddolwyr
- Tocyn Llif Gadwyn
- Profiad o gyflwyno gweithgareddau celf, natur, antur a gwylltgreft
- Sgiliau gwaith coed

## GWYBODAETH YCHWANEGOL:

### Cyflog:

Y cyflog yw £25,000 y pro rata (£12,500 y flwyddyn) ac yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol.

### Oriau:

Mae hwn yn swydd ran-amser 18.75 awr yr wythnos. Mae'n bosib trefnu oriau gweithio hyblyg. Os gofynnir i chi weithio ar ddiwrnod ychwanegol nad sy'n ddiwrnod gwaith arferol, gellir trefnu amser i ffwrdd yn lle. Gall yr oriau hyn gynyddu dros amser.

### Gwyliau Blynyddol:

Bydd gan ddeiliad y swydd 10 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn gan gynnwys hawl i wyl y banc, i'w cymryd y tu allan i ddyddiadau cyflwyno'r cwrs. Rhaid cymryd 1 wythnos (2.5 dirwnod) o wyliau dros gyfnod cau'r Nadolig; pob gwyliau erbyn diwedd Rhagfyr 2025.

### Cyfnod Prawf:

Bydd cyfnod prawf o 3 mis yn berthnasol i recriwtiaid newydd yn unig, gan orffen mewn cyfarfod gyda'r Cydlynydd Sirol ac aelod o'r tîm rheoli i sicrhau bod deiliad y swydd yn addas ar gyfer y swydd ac wedi setlo yn y swydd.

### Lleoliad:

Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn coetiroedd, gerddi a safleoedd mynediad cyhoeddus ar draws y sir.

### Teithio a Chynhaliaeth:

Ble gofynnir i staff i deithio ar y ffordd ar gyfer busnes swyddogol yn ychwanegol at y daith arferol i leoliadau gwaith, bydd darpariaeth o lwfans milltiroedd o 45c y filltir am ddefnydd o gerbyd personol.

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

TIR COED

**Buddion:**

Bydd deiliad y swydd yn ymuno â thîm cefnogol sy'n gweithio'n galed, wedi'i ysgogi gan yr awydd i wneud gwahaniaeth i'w cymunedau lleol a bod yn rhan o ateb i rai o'r materion anoddaf y mae ein cymunedau gwledig yn eu hwynebu; newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, effaith diffyg cyswllt â natur, diffyg cyfleoedd economaidd, ac afiechyd.

**Yn Ogystal â hyn, mae Tir Coed yn Cynnig:**

- Cynllun pensiwn
- O leiaf 2 'ddiwrnod i ffwrdd' y flwyddyn yn ymweld â mannau gwyrdd
- Hyfforddiant mewnol ac allanol
- Tîm dwyieithog, cyfeillgar a chefnogol; deinamig a chydweithredol
- Cyfle i ddatblygu'r rôl dros amser
- Gweithio hyblyg ar gael

**"Gadewch i ni fod yn rhan o'r ateb gyda'n gilydd"**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.